Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Feithrinfa Camau Bach**
**Canolfan Inergredig MM**
**Boulevard San Brieuc**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 1PD**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Meithrinfa Camau Bach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Camau Bach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dr Gwenllian Lansdown Davies a Leanne Marsh |
| Person â gofal | Debbie Benjamin |
| Nifer y lleoedd | 75 |
| Amrediad oedran y plant | 6 wythnos i 8 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 3 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:00yb a 6:00yh am 51 wythnos y flwyddyn |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 04/07/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 17/06/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 29/01/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Saesneg yw prif iaith y cartref llawer o'r plant. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob ymarferwr yn deall ac yn gweithredu holl bolisïau’r lleoliad yn gyson

A2 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a goruchwylio staff er mwyn adnabod yr agweddau pwysig sydd angen eu gwella

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn ymgartrefu'n gyflym ac yn mynd yn syth at eu gweithgareddau heb ffwdan. Mae ganddynt berthynas hyfryd gyda'r ymarferwyr ac yn gwybod y gallant droi atynt am gymorth os oes angen.

Mae bron pob plentyn yn mynegi ei deimladau'n glir. Caiff lles y plant ei hyrwyddo'n bwrpasol wrth iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol ynglŷn â'u chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, mae rhan fwyaf o'r plant ieuengaf yn mynd at deganau o'u dewis ac yn gwneud hynny'n hyderus heb arweiniad. Mae tua hanner y plant yn hyderus i ofyn am ragor o fwyd neu ddiod yn ystod amser bwyd. Mae rhan fwyaf o'r plant hynaf yn cymryd rhan weithredol wrth drafod eu diddordebau a'u hoff bethau wrth gyd-gynllunio thema'r tymor gyda'r ymarferwyr. Ar draws y lleoliad, mae llawer o'r plant yn cyfrannu'n effeithiol at greu gwelliannau yn y ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn hunanwerthuso'r amgylchedd trwy ddefnyddio cardiau i fynegi eu hoff hardaloedd ac yn cael cyfle i leisio barn yn anffurfiol.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda. Maent yn dangos parch, yn rhannu adnoddau ac yn dechrau cymryd eu tro yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn ymfalchïo yn llwyddiannau ei gilydd. Er enghraifft, mae plentyn yn gwenu a chlapio i gymeradwyo un o'i gyfoedion am baru siapau gyda'i gilydd. Mae'r plant ieuengaf yn amyneddgar iawn wrth iddynt orfod aros am gyfnod hir am eu bwyd amser cinio.

Mae rhan fwyaf y plant yn dod yn fwyfwy annibynnol ac mae eu medrau datrys problemau yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae'r plant yn bwyta ac yfed yn annibynnol ac mae'r plant hŷn yn ailgylchu deunyddiau, yn golchi dwylo ac yn mynd i'r tŷ bach yn annibynnol. Mae rhan fwyaf y plant hynaf yn annibynnol iawn wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau a phrofiadau dysgu diddorol. Maent yn barod iawn i ymchwilio a darganfod drostynt eu hunain ac i gydweithio'n llwyddiannus gyda'u cyfoedion.

Mae bron pob un yn dangos parch at ei gilydd a'u cyfoedion wrth chwarae. Maent yn rhyngweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn barod iawn i weithio ar dasgau yn dra annibynnol am gyfnod priodol o amser. Er enghraifft, maent yn mynd i'r gornel gelf i baentio llun ac yn cyfateb lliwiau gyda chownteri.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

At ei gilydd, mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a diogelwch y plant yn dda. Caiff pob plentyn ei annog i gymryd rhan mewn cynlluniau amrywiol sy'n hyrwyddo ffyrdd

iach o fyw yn effeithiol, er enghraifft drwy frwsio dannedd a sesiynau ioga yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad i fwyd iach ac yn cynnig profiadau gwerthfawr i blant ddatblygu medrau corfforol yn yr awyr agored.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer rheoli ymddygiad plant. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau ymddygiad cadarnhaol i reoli ymddygiad plant. Er hyn, nid yw ychydig iawn o ymarferwyr yn gweithredu'r strategaethau hyn yn ddigon cyson. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth effeithiol o sut a phryd i ymyrryd mewn gweithgareddau i ddatblygu ac ymestyn chwarae a dysgu'r plant. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd cyfrif, mae ymarferwr yn holi'n effeithiol gan annog y plant i feddwl ac i'w herio yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob tro'n gwneud y gorau o gyfleoedd i hybu medrau annibynnol y plant, er enghraifft trwy weithredu fel helpwr y dydd yn ystod amser byrbryd.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu a hylendid y lleoliad yn dda. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o'r ymarferwyr bob amser yn ddigon cyson wrth roi ambell bolisi ar waith. Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau diogelwch tân, er nid yw'r ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân yn ddigon rheolaidd i sicrhau bod pob plentyn yn ymwybodol o'r drefn i'w dilyn mewn argyfwng.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion, eu galluoedd a'u dymuniadau unigol. Mae trefniadau priodol ar waith i adnabod plant gydag anghenion ychwanegol, anghenion meddygol neu ymddygiadol. Mae'r ymarferwyr yn barod iawn i gydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn diwallu anghenion y plant, er enghraifft wrth weithredu rhaglen gan ffisiotherapydd i ddatblygu medrau mân plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb bron bob plentyn yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio syniadau'r plant yn grefftus er mwyn cynllunio gweithgareddau sy'n adlewyrchu'u diddordebau ac yn adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wybod. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r defnydd effeithiol a wneir o'r gymuned leol i gefnogi dysgu trwy ymweld â lleoliadau diddorol, ynghyd â gwahodd ymwelwyr i rannu profiadau gyda'r plant. Enghraifft effeithiol o hyn yw ymweld â gorsaf y bad achub a gwrando ar barafeddyg yn siarad am ei waith fel rhan o thema 'Pobl sy'n helpu'. Yn ogystal, mae ymweliadau rheolaidd i'r llyfrgell ynghyd â'r ganolfan ddydd gyfagos yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y plant am eu hardal leol yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau cyfoethog i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cofnodi a thrafod deilliannau'r plant yn rheolaidd er mwyn cynllunio gweithgareddau pwrpasol i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd da o asesiadau cychwynnol a fframwaith y cyfnod sylfaen wrth gynllunio. O ganlyniad, mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei ddatblygu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu sy'n datblygu medrau'r plant yn systematig ar draws yr ardaloedd dysgu.

Rhoddir sylw da i ddatblygu medrau plant mewn ffordd hwylus ac effeithiol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o rigymau, caneuon, storïau ac arferion dyddiol er mwyn datblygu medrau iaith y plant yn gadarn. Maent yn cynllunio'n fedrus i ddatblygu medrau rhifedd y plant trwy brofiadau dysgu ymarferol sy'n eu hannog i arbrofi ac i ddarganfod drostynt eu hunain. Enghraifft dda o hyn yw gweithgareddau fel cyfri a gosod peli cotwm lliwgar ar y dyn eira gyda gefeiliau bach sy'n datblygu'u medrau rhifedd a'u medrau mudol mân mewn ffordd hwylus. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), er enghraifft trwy ddefnyddio apiau i wneud llun wynebau a thrwy reoli tegan rhaglenadwy wrth gasglu dillad a gwrthrychau naturiol i gwblhau llun o ddyn eira.

Mae gan ymarferwyr berthynas waith hyfryd gyda'r plant ac maent yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael iddynt ymchwilio a darganfod drostynt eu hunain. Maent yn modelu iaith lafar yn briodol gan atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa gyfarwydd yn gadarn trwy gydol y sesiwn. Mae hyn, ynghyd â gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig, yn sicrhau bod yr ethos Cymreig yn gryf. Mae ymarferwyr yn holi plant yn fedrus er mwyn ehangu eu dealltwriaeth ac i ddatblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Maent yn gosod heriau diddorol i'r plant er mwyn iddynt ddatblygu'r medrau hyn ac ymarfer datrys problemau, er enghraifft trwy benderfynu sut i gael y pengwin allan o floc o iâ.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd diogel, deniadol a chroesawgar sy'n addas iawn at ei ddiben. Mae'r amgylchedd yn ysgogol ac yn cynnwys arddangosfeydd pwrpasol sy'n atgyfnerthu'r dysgu ac yn dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus.

Mae gan reolwyr a'r ymarferwyr ymwybyddiaeth gadarn o faterion diogelwch ac maent yn llunio asesiadau risg cynhwysfawr a thrylwyr i sicrhau diogelwch y plant. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gael ar ddiwedd y dydd i sicrhau bod y plant yn gadael gyda rhiant neu ofalwr cydnabyddedig.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd yn fedrus i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant gymryd risgiau wrth ddysgu. Mae'r amgylchedd dysgu ar draws y lleoliad yn bwrpasol ac yn cynnig cyfleoedd da i blant ymchwilio ac i ddysgu. Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr wedi sefydlu corneli ac ardaloedd dysgu effeithiol sy'n cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau sylfaenol. Er hyn, nid yw ychydig o ystafelloedd yn cynnig digon o ardaoloedd pwrpasol i blant ddefnyddio adnoddau marcio yn annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r ystafelloedd y tu mewn i'r adeilad, gan gynnwys yr ystafell synhwyredd a'r ystafell greadigol. Mae yna amrywiaeth eang o adnoddau safonol ar gael ac maent yn bodloni anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'r ystafell ar gyfer plant dros dair blwydd oed yn cynnig cyfleoedd dysgu pwrpasol i'r plant, er enghraifft trwy chwarae rôl yn y 'caffi' ac yn yr 'iglw'. Caiff llawer o'r adnoddau eu cadw mewn blychau wedi'u labeli er mwyn annog y plant i'w hestyn a'u cadw'n annibynnol. Mae hyn yn galluogi'r plant i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu a chwarae yn dda. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi datblygu'r ardal allanol yn llwyddiannus i gynnig darpariaeth bwrpasol i'r plant; er enghraifft, mae'r llong morladron a'r ardaloedd archwilio yn rhoi cyfle i blant ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn dda.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu gwasanaeth o safon uchel o ran lles, gofal ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn cyfleu hyn yn effeithiol i'r holl ymarferwyr, rhieni a'r gymuned ehangach. Mae'r arweinydd a'r rheolwraig yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu'r weledigaeth hon ac i arwain trwy esiampl. Maent yn gosod disgwyliadau uchel o ran sicrhau bod yr holl staff yn ymrwymo i greu ethos gofalgar ac awyrgylch ysgogol ar gyfer y plant. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau amlwg i'r ddarpariaeth ers iddynt gael eu penodi. Maent yn cwrdd ag arweinwyr yr ystafelloedd yn rheolaidd er mwyn trafod bywyd a gwaith y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn medru cynnig eu barn trwy eu harweinwyr ac i dderbyn gwybodaeth bwysig am flaenoriaethau'r lleoliad.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyflenwad addas o staff sy'n gymwys i weithio gyda'r amrediad eang o blant sy'n mynychu. Mae prosesau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cyfrannu'n werthfawr i gyflawni nodau strategol ac amcanion y lleoliad. Mae arweinwyr yn gweithredu trefniadau goruchwylio ac yn gwerthuso gwaith ymarferwyr yn briodol er mwyn penodi targedau addas ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw arfarniadau sy'n deillio o arsylwadau uniongyrchol bob tro'n ddigon penodol o ran adnabod agweddau o ansawdd y gofal a'r addysgu sydd angen eu gwella. Mae arweinwyr yn trefnu hyfforddiant buddiol i ymarferwyr sy'n berthnasol i'w gwaith trwy fynychu cyrsiau allanol yn ogystal â chynnal diwrnodau cau ar gyfer yr holl staff. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad proffesiynol staff yn ogystal â gwella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad y plant.

Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn ar gyfer hunanwerthuso ac maent yn ystyried barn rhieni, staff, plant ac asiantaethau allanol yn dda fel rhan o'r broses. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella ar draws yn lleoliad. Maent yn gwerthuso cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun gwella yn rheolaidd er mwyn blaenoriaethu'r camau gweithredu nesaf. Mae'r trefniadau hunanwerthuso effeithiol hyn wedi sicrhau gwelliannau amlwg dros y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft y defnydd o'r ardal allanol i gyfoethogi dysgu'r plant.

Mae'r ystod eang o bartneriaethau gwerthfawr, yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ymarferwyr ac arweinwyr, yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau plant. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni trwy gynnal nosweithiau agored, rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau pwysig ac adrodd ar ddatblygiad eu plant. Mae'r berthynas fuddiol gydag ysgolion lleol yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo'n esmwyth. Mae'r cyfarfodydd buddiol rhwng yr athrawon a'r ymarferwyr i drafod gofynion y plant cyn iddynt adael y lleoliad yn cefnogi hyn yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/04/2019